# 1. Ymgynghoriad pellach ar niwed anghyfreithlon: Rheolaethau defnyddwyr

## Cynnig i ddiwygio Mesurau ICU J1 (rhwystro a thewi) ac ICU J2 (analluogi sylwadau)

### Trosolwg

Rydym yn ymgynghori ar ehangu'r defnydd o Fesurau ICU J1 ac ICU J2 yn y Codau Ymarfer ar Gynnwys Anghyfreithlon, gan ddod â darparwyr rhai gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr llai sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant i mewn i gwmpas y mesurau hyn pan mae ganddynt risgiau a swyddogaethau perthnasol. Rydym yn cynnig bod darparwyr naill ai'n defnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i gynnig yr opsiwn i ddefnyddwyr sy'n blant rwystro a thewi defnyddwyr eraill ac analluogi sylwadau ar eu cynnwys neu eu bod yn cynnig y rheolaethau hyn i bob defnyddiwr ar y rhannau o'r gwasanaeth sy'n agored i blant. Byddai'r mesurau'n dal yn berthnasol i bob defnyddiwr yn achos darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr sydd â'r risgiau a'r swyddogaethau perthnasol, fel sy'n cael ei nodi ar hyn o bryd yn y Codau Ymarfer ar Gynnwys Anghyfreithlon.

Mae galluogi plant i rwystro neu dewi defnyddwyr eraill ac analluogi sylwadau yn gallu eu helpu i leihau'r risg o ddod ar draws cynnwys anghyfreithlon gan gynnwys meithrin perthynas amhriodol; annog neu gynorthwyo hunanladdiad (neu ymgais i gyflawni hunanladdiad); casineb; aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin; ac ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli[1]. Rydym o'r farn bod modd cyfiawnhau'r cynnig hwn gan y byddai'n ymestyn yr amddiffyniad sy'n cael ei gynnig gan y mesurau hyn ar draws mwy o wasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant, gan adlewyrchu'r safon uwch o amddiffyniad i blant sy'n cael ei ragweld gan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023.

Mae'r cynnig hwn hefyd yn ymateb yn uniongyrchol i adborth gan randdeiliaid a oedd yn argymell cysoni'r mesurau hyn â mesurau cyfatebol yn y Codau Ymarfer ar Amddiffyn Plant. Mae'r mesurau'n cael eu hamlinellu yn Adran 18 y Datganiad Amddiffyn Plant.

### Cwestiwn yr ymgynghoriad:

Ydych chi'n cytuno â'n cynigion? Rhowch unrhyw dystiolaeth i ategu eich ateb.

[1] Dim ond o fewn cwmpas y mesur ar gyfer rhwystro a thewi cyfrifon defnyddwyr y mae ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli (ICU J1).

**Yr hyn rydym yn ei gynnig:**

| Mesur | Yr ychwanegiad arfaethedig |
|---|---|
| **ICU J1**<br>**Rhwystro a thewi defnyddwyr** | Byddai'r mesur hefyd yn berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant sydd â phroffiliau defnyddwyr, sydd ag o leiaf un o'r swyddogaethau canlynol (cysylltiadau rhwng defnyddwyr, postio cynnwys, cyfathrebu rhwng defnyddwyr), ac sydd â:<br>i) llai na saith miliwn o ddefnyddwyr misol yn y DU a risg uchel o o leiaf un o'r canlynol: ymddygiad sy'n gorfodi neu'n rheoli; aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin; casineb; meithrin perthynas amhriodol; annog neu gynorthwyo hunanladdiad; neu<br>ii) rhwng 700,000 a saith miliwn o ddefnyddwyr misol yn y DU a risg ganolig o o leiaf un o'r niwed perthnasol (fel uchod). |
| **ICU J2**<br>**Analluogi sylwadau** | Byddai'r mesur hefyd yn berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant lle mae modd rhoi sylwadau ar gynnwys, ac sydd â:<br>i) llai na saith miliwn o ddefnyddwyr misol yn y DU a risg uchel o o leiaf un o'r canlynol: aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin; casineb; meithrin perthynas amhriodol; annog neu gynorthwyo hunanladdiad; neu<br>ii) rhwng 700,000 a saith miliwn o ddefnyddwyr misol yn y DU a risg ganolig o o leiaf un o'r niwed perthnasol (fel uchod). |

# Cyflwyniad

1.2 Mae Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 (y Ddeddf) yn mynnu bod darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cael eu rheoleiddio yn cymryd camau penodol i leihau'r risg o niwed i ddefnyddwyr o gynnwys anghyfreithlon. Mae'r gofynion yn cynnwys cymryd mesurau cymesur sy'n ymwneud â dyluniad neu weithrediad gwasanaeth i liniaru a rheoli'r risgiau o niwed i unigolion (adran 10(2)). Mae'r Ddeddf yn datgan mai un o'r meysydd y mae'r dyletswyddau'n berthnasol iddo yw (lle bo'n gymesur) "swyddogaethau sy'n caniatáu i ddefnyddwyr reoli'r cynnwys y maent yn dod ar ei draws" (adran 10(4)(f)).

1.3 Yn Natganiad mis Rhagfyr 2024 ar Ddiogelu Pobl rhag Niwed Anghyfreithlon Ar-lein (Datganiad mis Rhagfyr 2024) a'r Codau Ymarfer ar Gynnwys Anghyfreithlon,[2] fe wnaethom argymell mesurau rheoli defnyddwyr ar gyfer **darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr** sydd â swyddogaethau perthnasol a oedd yn nodi'r risg o niwed anghyfreithlon penodol. Roedd y rhain yn cynnwys:

[2] Mae Datganiad Rhagfyr 2024 ar gael yma ac mae'r Codau Ymarfer ar Gynnwys Anghyfreithlon ar gael yma.

a) **ICU J1**: Dylai darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr gynnig dewisiadau i bob defnyddiwr cofrestredig rwystro a thewi cyfrifon defnyddwyr eraill ar y gwasanaeth, os ydyn nhw wedi:

- nodi risg canolig neu uchel o unrhyw un o'r canlynol: ymddygiad sy'n gorfodi neu'n rheoli; aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin; casineb; meithrin perthynas amhriodol; annog neu gynorthwyo hunanladdiad;
- proffiliau defnyddwyr; ac
- o leiaf un o'r canlynol; cysylltiadau rhwng defnyddwyr; postio cynnwys; cyfathrebu rhwng defnyddwyr (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, negeseuon uniongyrchol a gwneud sylwadau ar gynnwys).

b) **ICU J2**: Dylai darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawn roi'r dewis i bob defnyddiwr cofrestredig allu diffodd sylwadau ar eu cynnwys, os ydyn nhw wedi:

- nodi risg canolig neu uchel o unrhyw fath o aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin; casineb; meithrin perthynas amhriodol; neu annog neu gynorthwyo hunanladdiad; ac
- y gallu i wneud sylwadau ar gynnwys.

1.4 Daethom i'r casgliad y byddai'r mesurau hyn yn helpu i leihau'r risg o niwed i ddefnyddwyr. Yn benodol, mae galluogi defnyddwyr i rwystro neu dewi defnyddwyr eraill yn gallu eu helpu i leihau'r risg o ddod ar draws cynnwys anghyfreithlon sydd wedi cael ei bostio gan y defnyddwyr hynny, fel aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin, ac ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli. Yn yr un modd, gall caniatáu i ddefnyddwyr ddiffodd sylwadau helpu i osgoi cynnwys anghyfreithlon sy'n cael ei bostio mewn ymateb i'w cynnwys, gan gynnwys aflonyddu (fel trolio epilepsi a seiberfflachio) a chasineb. Mae'r troseddau hyn ar led ac yn achosi niwed sylweddol. Rydym yn nodi ein hasesiad o effeithiolrwydd y swyddogaethau defnyddwyr hyn yn Natganiad Rhagfyr 2024 yng Nghyfrol 2, Pennod 12 'Rheolaethau Defnyddwyr'.

1.5 Fe wnaethom benderfynu defnyddio'r mesurau atal neu dawelu ac analluogi sylwadau ar gyfer darparwyr gwasanaethau defnyddwyr-i-ddefnyddiwr **mawr** perthnasol. Fodd bynnag, we wnaethom gadarnhau ein bwriad i ailystyried yr achos dros ymestyn mesurau ICU J1 ac ICU J2 i ddarparwyr gwasanaethau llai, gan ein bod wedi cynnig bod mesurau tebyg yn berthnasol i ddarparwyr gwasanaeth o'r fath yn y Codau Ymarfer ar Amddiffyn Plant (Codau Amddiffyn Plant).

1.6 Ar ôl ailystyried y mater, rydym nawr yn cynnig ehangu cwmpas y mesurau rhwystro neu dewi cyfrifon defnyddwyr ac analluogi sylwadau yn y Codau Ymarfer ar Gynnwys Anghyfreithlon (Codau Cynnwys Anghyfreithlon) i fod yn berthnasol i ddarparwyr rhai gwasanaethau llai sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant, a dylai'r darparwyr hynny sicrhau bod yr offer hyn ar gael i ddefnyddwyr sy'n blant ar y rhannau o'r gwasanaeth sy'n agored i blant. Mae hyn yn dilyn ein hystyriaeth o'r dystiolaeth sydd ar gael yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys yr ymatebion i'n Hymgynghoriad ym mis Tachwedd 2023 ar Amddiffyn Pobl rhag Niwed Anghyfreithlon Ar-lein (Ymgynghoriad mis Tachwedd 2023)[3] a'n Hymgynghoriad ar Amddiffyn Plant rhag Niwed Ar-lein ym mis Mai 2024 (Ymgynghoriad mis

[3] Mae'r Ymgynghoriad ar Amddiffyn Pobl rhag Niwed Anghyfreithlon Ar-lein (Ymgynghoriad mis Tachwedd 2023) ar gael yma.

Mai 2024)[4], ac mae yng ngoleuni'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y Datganiad Amddiffyn Plant.

1.7 Mae gweddill y bennod hon yn egluro'r rhesymau dros ein cynnig.

## Ein cynnig

1.8 Rydym yn cynnig ehangu'r darparwyr gwasanaeth o fewn cwmpas mesurau ICU J1 (rhwystro a thewi) ac ICU J2 (analluogi sylwadau) yn ein Codau Cynnwys Anghyfreithlon i gynnwys y canlynol (yn ogystal â'r gwasanaethau mawr sy'n cael eu disgrifio uchod):

- **ICU J1**: Darparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant sydd â phroffiliau defnyddwyr, sydd ag o leiaf un o'r swyddogaethau canlynol (cysylltiadau rhwng defnyddwyr, postio cynnwys, cyfathrebu rhwng defnyddwyr), ac sydd â:
  - > llai na saith miliwn o ddefnyddwyr misol yn y DU ac sydd â risg uchel o o leiaf un o'r mathau canlyno o niwed anghyfreithlon: ymddygiad sy'n gorfodi neu'n rheoli; aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin; casineb; meithrin perthynas amhriodol; annog neu gynorthwyo hunanladdiad; neu
  - > rhwng 700,000 a saith miliwn o ddefnyddwyr misol yn y DU ac sydd â risg ganolig o o leiaf un o'r mathau perthnasol o niwed anghyfreithlon (fel uchod).[5]
- **ICU J2**: Byddai'r mesur hefyd yn berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant lle mae modd rhoi sylwadau ar gynnwys, ac sydd â:
  - > llai na saith miliwn o ddefnyddwyr misol yn y DU ac sydd â risg uchel o o leiaf un o'r mathau canlynol o niwed anghyfreithlon: aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin; casineb; meithrin perthynas amhriodol; annog neu gynorthwyo hunanladdiad; neu
  - > rhwng 700,000 a saith miliwn o ddefnyddwyr misol yn y DU ac sydd â risg ganolig o o leiaf un o'r mathau perthnasol o niwed anghyfreithlon (fel uchod) ac sydd â dros 700,000 o ddefnyddwyr misol yn y DU.

1.9 Rydym hefyd yn argymell bod darparwyr yn rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am y mesurau hyn. Rhaid i'r wybodaeth hon fod yn hygyrch ac yn ddealladwy ar sail oedran darllen tebygol yr unigolyn ieuengaf sy'n cael defnyddio'r gwasanaeth heb ganiatâd rhiant neu warcheidwad. Rydym yn nodi'r gofyniad hwn yn Natganiad mis Rhagfyr 2024, Cyfrol 2, Pennod 12: Rheolaethau Defnyddwyr.

1.10 Dylai'r mesurau hyn fod yn berthnasol i bob defnyddiwr yn y DU sydd heb gael eu cadarnhau fel oedolion drwy ddefnyddio dulliau effeithiol iawn o sicrhau oedran. Mae

---

[4] Mae Ymgynghoriad mis Mai 2024 ar Amddiffyn Plant rhag Niwed Ar-lein (Ymgynghoriad mis Mai 2024) ar gael yma.

[5] Wedi'i gyfrifo'n unol â'r fethodoleg sy'n cael ei nodi yn y Codau Ymarfer ar Gynnwys Anghyfreithlon. Edrychwch ar y bennod 'Ein dull gweithredu ar gyfer datblygu mesurau Codau' yn Natganiad mis Rhagfyr 2024 i gael rhagor o wybodaeth.

hynny'n golygu, os nad yw darparwyr yn defnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn ar gyfer eu gwasanaeth, y dylai'r mesurau hyn fod yn berthnasol ar gyfer pob defnyddiwr yn y DU.[6] [7]

1.11 Er mwyn osgoi amheuaeth, byddai'r mesurau'n dal i fod yn berthnasol i bob defnyddiwr yn achos gwasanaethau defnyddwyr-i-ddefnyddiwr mawr[8] sydd â'r swyddogaethau perthnasol a risg ganolig neu uchel o'r niwed perthnasol, fel sy'n cael ei nodi ar hyn o bryd yn y Codau Cynnwys Anghyfreithlon (Mesurau ICU J1 ac ICU J2). Cyfeiriwch at y Datganiad Niwed Anghyfreithlon, Cyfrol 2, Pennod 12: Rheolaethau Defnyddwyr i gael rhagor o wybodaeth am y mesurau sydd eisoes yn bodoli.

# Asesiad effaith

## Buddion

1.12 Rydym o'r farn y bydd y cynnig hwn yn lleihau'r risg y bydd plant yn dod ar draws niwed anghyfreithlon ar-lein. Mae'r mesurau hyn, gyda'i gilydd, yn ceisio sicrhau bod darparwyr gwasanaethau'n rhoi mynediad i blant at offer sy'n caniatáu iddynt bennu'r cynnwys maent yn ei weld ar wasanaethau, pwy sy'n gallu cysylltu â nhw a phwy sy'n gallu rhyngweithio â nhw, a gwybodaeth sy'n eu helpu i benderfynu a ydynt am ymgysylltu â chynnwys ac ymddiried ynddo.

1.13 Mae galluogi plant i rwystro neu dewi cyfrifon defnyddwyr eraill ac analluogi sylwadau yn gallu eu helpu i leihau'r risg o ddod ar draws cynnwys anghyfreithlon amrywiol, fel meithrin perthynas amhriodol; annog neu gynorthwyo hunanladdiad (neu ymgais i gyflawni hunanladdiad); casineb; aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin; ac ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli.[9] Mae'r mathau hyn o droseddau'n digwydd ar-lein ac yn achosi niwed sylweddol i blant, gan gynnwys effeithio'n negyddol ar eu dioddefwyr a'u goroeswyr. Rydym yn nodi'r niwed penodol yn y Gofrestr Risgiau Niwed Anghyfreithlon (y Gofrestr Niwed Anghyfreithlon)[10].

1.14 Rydym hefyd yn ymwybodol o'r niwed perthnasol sy'n digwydd ar fathau gwahanol o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau llai, gydag ystod eang o swyddogaethau defnyddwyr perthnasol fel negeseuon uniongyrchol, ffrydiau byw, postio cynnwys a rhoi sylwadau ar gynnwys yn ffactorau risg. Rydym yn nodi'r ffactorau risg perthnasol yn y Gofrestr.

1.15 Rydym yn egluro yng Nghyfrol 4, Adran 18 y Datganiad Amddiffyn Plant[11] pam ein bod o'r farn y byddai mesurau tebyg yn y Codau Amddiffyn Plant hefyd yn effeithiol o ran

---

[6] Er mwyn bod yn gryno, mewn rhannau eraill o'r adran hon rydym yn cyfeirio at 'ddefnyddwyr' yn hytrach na 'defnyddwyr yn y DU'. Fodd bynnag, er mwyn osgoi amheuaeth, dim ond i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn y DU y mae'r mesurau sy'n cael eu trafod yn berthnasol (fel y'u diffinnir yn adran 227(1) o'r Ddeddf).

[7] Nodwch, byddwn yn ymgynghori ar fesurau i helpu i arwain y defnydd o sicrwydd oedran ar gyfer darparwyr gwasanaethau yn yr ymgynghoriad sydd ar y gweill.

[8] Mae 'gwasanaethau mawr' yn golygu'r rheini sydd â dros saith miliwn o ddefnyddwyr gweithredol misol yn y DU.

[9] Nid oes modd cyflawni'r drosedd o ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli yn erbyn plant dan 16 oed. Fodd bynnag, mae Pennod 5 ein Cofrestr Risgiau yn rhoi tystiolaeth bod oedran yn ffactor risg ar gyfer y math hwn o niwed, gyda'r effaith fwyaf ar fenywod iau, gan gynnwys y rhai o dan 18 oed. Cofrestr Risgiau, Pennod 5, 'Ffactorau risg: Sylfaen defnyddwyr'.

[10] Mae'r Gofrestr Risgiau, Adran 2, 'Cofrestr Risgiau a Phroffiliau Risg' ar gael yma.

[11] Edrychwch ar baragraffau 18.51, 18.52, 18.61 i 18.68, a 18.133 i 18.136 yng Nghyfrol 4, Adran 18 o'r Datganiad Amddiffyn Plant am fanylion llawn

amddiffyn defnyddwyr sy'n blant rhag y categorïau canlynol o gynnwys â blaenoriaeth sy'n niweidiol i blant: bwlio; cynnwys casineb a cham-drin; cynnwys treisgar; cynnwys hunanladdiad, hunan-niweidio ac anhwylder bwyta. Mae llawer o'r dystiolaeth ar y niwed hwn hefyd yn berthnasol i'r mathau o niwed anghyfreithlon y mae'r mesurau arfaethedig hyn yn berthnasol iddynt, o ystyried y tebygrwydd o ran sut maent yn dod i'r amlwg ar-lein a sut mae plant yn eu profi.[12] Rydym yn nodi'r dystiolaeth hon yn y Canllawiau ar Gynnwys sy'n Niweidiol i Blant[13]. Er ein bod o'r farn y byddai'r mesurau hyn o fudd i bob defnyddiwr, mae'r rhesymau sy'n cael eu hamlinellu yn y Datganiad Amddiffyn Plant yn dangos y byddent yn arbennig o ddefnyddiol i blant. Mae'r rhesymau hyn hefyd yn cefnogi ymestyn y mesurau arfaethedig i ddiogelu plant yn well rhag y niwed anghyfreithlon penodol a nodwyd.

1.16 O ystyried pa mor gyffredin yw'r niwed hwn a difrifoldeb yr effaith maen nhw'n ei chael, rydym o'r farn y byddai ehangu'r defnydd o'r mesurau hyn fel sy'n cael ei gynnig yn arwain at fanteision sylweddol i ddefnyddwyr.

## Costau

1.17 Rydym o'r farn y byddai gweithredu a chynnal y swyddogaethau defnyddwyr arfaethedig yn arwain at gost i ddarparwyr gwasanaeth sydd ddim yn eu cynnig ar hyn o bryd. Rydym yn nodi'r costau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn isod. Rydym yn disgwyl mai'r darparwyr gwasanaeth y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt yw'r rheini nad ydynt eisoes o fewn cwmpas naill ai'r Codau Cynnwys Anghyfreithlon (Mesurau ICU J1 ac ICU J2) neu'r Codau Amddiffyn Plant (Mesurau PCU J1 a PCU J2).[14] Yn ymarferol, rydym yn disgwyl mai nifer fach iawn o wasanaethau fydd hyn. O ystyried y tebygrwydd rhwng y niwed y mae'r mesurau Cynnwys Anghyfreithlon a'r mesurau Amddiffyn Plant yn berthnasol iddo, mae'n debygol bod llawer o'r darparwyr a fyddai o fewn cwmpas yr ehangu arfaethedig eisoes o fewn cwmpas y llall.

### Costau uniongyrchol

1.18 Ar gyfer ICU J1, rydym yn amcangyfrif y byddai darparwr gwasanaeth perthnasol sydd ddim yn cynnig swyddogaethau rhwystro a thewi fel sy'n cael eu nodi yn y mesur arfaethedig hwn yn wynebu cost untro i wneud newidiadau yn unol â'r mesur hwn rhwng £10,000 a £150,000 ac yn wynebu costau cynnal a chadw o rhwng tua £2,500 a £37,500 y flwyddyn.[15] Fe wnaethom amcangyfrif ystod costau eang, sy'n adlewyrchu'r ffaith ei bod yn debygol y bydd amrywiadau sylweddol ar draws darparwyr gwasanaethau, a fydd yn dibynnu ar ffactorau sy'n cynnwys cymhlethdod systemau'r darparwr a swyddogaethau'r gwasanaeth, a natur y ffordd mae defnyddwyr yn rhyngweithio ar wasanaeth. Rydym yn amcangyfrif bod costau'n debygol o gynyddu ar gyfer gwasanaethau mwy sy'n tueddu i fod yn fwy cymhleth,

---

[12] Mae tystiolaeth o fwlio a cham-drin yn berthnasol i aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin. Mae tystiolaeth o gasineb fel categori o gynnwys â blaenoriaeth sy'n niweidiol i blant yn berthnasol i'r niwed anghyfreithlon o gasineb. Mae tystiolaeth o hunanladdiad fel categori o gynnwys â blaenoriaeth sy'n niweidiol i blant yn berthnasol i'r niwed anghyfreithlon o annog neu gynorthwyo hunanladdiad.

[13] Mae'r Canllawiau ar Gynnwys sy'n Niweidiol i Blant ar gael yng Nghyfrol 2, Adran 6 y Datganiad Amddiffyn Plant.

[14] Mae disgwyl i'r rhain fod yn wasanaethau llai sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant sy'n nodi risg o fathau perthnasol o gynnwys anghyfreithlon ond sydd ddim wedi nodi risg berthnasol o'r mathau o gynnwys sy'n cael eu cynnwys ym mesurau PCU J1 a/neu PCU J2 yn y Codau Amddiffyn Plant.

[15] I gael rhagor o fanylion am dybiaethau cost, edrychwch ar Atodiad 5 y Datganiad Niwed Anghyfreithlon: Tybiaethau ynghylch costau a dadansoddiad pellach o gostau a buddion.

ond ni allwn fod yn hyderus y byddai'r costau i wasanaethau bach ym mhen isaf ein hystod amcangyfrifol. Mewn rhai achosion, mae darparwyr gwasanaethau eisoes wedi rhoi'r mesur (neu rannau ohono) ar waith, sy'n golygu y gallai'r costau fod yn is ar gyfer y gwasanaethau hyn.[16]

1.19 Ar gyfer ICU J2, byddai darparwr gwasanaeth perthnasol sydd ddim yn cynnig yr opsiwn i ddefnyddwyr analluogi sylwadau ar eu postiadau yn wynebu cost untro i wneud newidiadau yn unol â'r mesur hwn o rhwng £2,000 a £50,000 ac yn wynebu costau cynnal a chadw o tua £500 i £12,500 y flwyddyn. Fe wnaethom amcangyfrif ystod eang o gostau uniongyrchol, sy'n adlewyrchu ansicrwydd, ac ni allwn fod yn hyderus y byddai'r costau i wasanaethau bach ym mhen isaf ein hystod amcangyfrifol. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl bod y mesur (neu rannau ohono) eisoes wedi cael ei roi ar waith gan ddarparwyr gwasanaethau, ac mae'n bosibl y bydd y costau yn is ar gyfer y gwasanaethau hyn.[17]

1.20 Rydym yn argymell bod darparwyr gwasanaethau o fewn y cwmpas yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr am y rheolyddion defnyddwyr hyn, gan gynnwys nodi effaith defnyddio'r adnoddau hyn, a bod yr wybodaeth hon yn hawdd dod o hyd iddi ac yn ddealladwy.[18] Rydym wedi amcangyfrif y byddai costau uniongyrchol y gydran hon ar gyfer pob mesur yn costio oddeutu £200 i £10,000 fel cost untro, gyda chostau cynnal a chadw blynyddol o £50 i £2,500 y flwyddyn.[19] [20]

1.21 Yn benodol, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar ddarparwyr gwasanaeth sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau roi'r mesurau hyn ar waith i bob defnyddiwr sydd heb gael eu cadarnhau fel oedolion gan ddefnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn. Os bydd darparwr gwasanaeth yn defnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i dargedu'r mesurau, efallai y bydd yn wynebu costau sy'n gysylltiedig â gweithredu sicrwydd oedran a defnyddio'r wybodaeth oedran hon i sicrhau bod yr adnoddau cymorth ar gael i blant. Rydym yn nodi'r costau cysylltiedig ar gyfer sicrhau oedran yn Adran 13 ac Atodiad 3.[21] Rydym yn nodi y bydd darparwyr sydd eisoes â sicrwydd oedran effeithiol iawn neu sydd wedi cael eu hargymell i'w weithredu fel rhan o fesurau eraill wedi ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r gost hon yn barod. Neu, gall darparwyr gwasanaeth osod y mesur ar gyfer pob defnyddiwr a pheidio ag wynebu costau sicrhau oedran effeithiol iawn.

### Costau anuniongyrchol

1.22 Rydym yn cydnabod y gallai'r mesurau arfaethedig hyn arwain at gostau anuniongyrchol i ddarparwyr sy'n ymwneud a'r ffaith fod y mesur yn lleihau cyfraddau ymgysylltu a defnyddio, gan leihau refeniw.

[16] Edrychwch ar baragraffau 12.84 i 12.90 yn ein Datganiad mis Rhagfyr 2024 i gael y manylion llawn.

[17] Edrychwch ar baragraffau 12.99 i 12.102 yn ein Datganiad mis Rhagfyr 2024 i gael y manylion llawn.

[18] Edrychwch ar fesurau ICU J1.7 a J2.4 y Codau Cynnwys Anghyfreithlon.

[19] Edrychwch ar baragraffau 12.110 i 12.112 yn ein Datganiad mis Rhagfyr 2024 i gael y manylion llawn.

[20] Er nad yw'r ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys yn y Codau Amddiffyn Plant, mae mesurau ychwanegol yn y Codau hynny i sicrhau bod plant yn deall yr offer defnyddwyr sydd ar gael iddynt ac yn gallu cael gafael ar gymorth priodol (PCU F1 a PCU F2).

[21] Edrychwch ar Adran 13: Sicrhau oedran, ac Atodiad 3: Rhagor o fanylion am ddadansoddiadau a thybiaethau economaidd
i gael manylion am gost sicrhau oedran effeithiol iawn os bydd darparwr yn dewis defnyddio hyn i dargedu'r mesur hwn.

1.23 Ar gyfer ICU J1, byddai'r effaith hon yn amrywio ar sail sut mae rhyngweithiad rhwng cyfrifon defnyddwyr yn amrywio ar draws gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, yn ôl y swyddogaethau sy'n cael eu defnyddio. Er enghraifft, gallai rhwystro'r holl ddefnyddwyr sydd heb eu cysylltu newid cymuned neu ddefnydd safle yn sylfaenol, ac ni all defnyddwyr weld neu ryngweithio â chynnwys sydd wedi'i greu gan ddefnyddwyr anhysbys eraill os ydynt yn dewis defnyddio'r adnodd hwn. Fodd bynnag, nid yw'n wir o reidrwydd y bydd y defnydd o wasanaeth yn arwain at ostyngiad mewn refeniw. Er y gallai'r effaith gyffredinol ar ymgysylltu fod yn negyddol i rai defnyddwyr, mae'n bosibl y bydd effaith gadarnhaol i ddefnyddwyr eraill. Er enghraifft, efallai y bydd defnyddwyr yn rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau pan fyddant yn dod ar draws cynnwys niweidiol. Felly, os yw defnyddwyr yn teimlo'n fwy diogel ar-lein oherwydd argaeledd offer rhwystro a thewi, efallai y byddant yn defnyddio mwy ar wasanaeth.[22]

1.24 Ar gyfer ICU J2, pe bai defnyddwyr yn analluogi sylwadau ar sail eang ac yn lleihau gweithgarwch sylwadau ar wasanaeth, gallai hyn effeithio ar allu defnyddwyr i ryngweithio â chynnwys. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi fod defnyddwyr yn aml yn gwerthfawrogi caniatáu sylwadau ar eu postiadau (neu hyd yn oed yn postio er mwyn cael sylwadau), ac felly rydym o'r farn ei bod yn annhebygol y byddai'r mesur yn arwain at ddileu sylwadau'n eang yn y rhan fwyaf o achosion. Gall rhoi'r gallu i ddefnyddwyr analluogi sylwadau hefyd arwain at rai manteision anuniongyrchol gwrthbwysol i wasanaethau drwy atal rhai defnyddwyr rhag gadael neu ddatgysylltu â gwasanaeth a allai ddigwydd fel arall pan fyddant yn dod ar draws cynnwys niweidiol drwy sylwadau ar eu postiadau na allant eu hanalluogi.[23]

1.25 Mae ein hasesiad o'r effaith ar ddarparwyr gwasanaeth sydd o fewn cwmpas y mesur hwn yn gyson â Datganiad Rhagfyr 2024 (Cyfrol 2, Adran 12) a'r Datganiad Amddiffyn Plant (Cyfrol 4, Adran 18). Edrychwch ar y datganiadau hyn i gael rhagor o wybodaeth am ein hasesiadau.

## Asesu hawliau

1.26 Mae defnyddwyr sy'n dewis rhwystro neu dewi defnyddwyr eraill a/neu analluogi sylwadau yn arfer eu hawliau i ryddid mynegiant a rhyddid cysylltiad drwy gyfyngu'r wybodaeth maent yn ei rhoi a'r bobl maent yn cysylltu â nhw. Rydym hefyd o'r farn y gallai'r mesurau hyn arwain at fanteision cadarnhaol i hawliau defnyddwyr i breifatrwydd gan y byddai'n rhoi opsiynau ychwanegol iddynt ar gyfer penderfynu sut i rannu cynnwys a gwybodaeth bersonol ar-lein.

1.27 Nid ydym o'r farn bod y mesurau hyn yn ymyrryd â'r hawl i ryddid mynegiant, cysylltiad defnyddwyr, na phreifatrwydd defnyddwyr. Mae ein hasesiad o'r effaith ar hawliau defnyddwyr yn gyson â Datganiad mis Rhagfyr 2024 (Cyfrol 2, Adran 12) a Datganiad Amddiffyn Plant (Cyfrol 4, Adran 18). Cyfeiriwch at benodau'r datganiadau hyn i gael rhagor o wybodaeth.

## I bwy mae'r mesurau arfaethedig hyn yn berthnasol

1.28 Fel yr eglurwyd uchod, wrth ddod i benderfyniad ynghylch ein Codau Cynnwys Anghyfreithlon, roeddem yn cydnabod ein bod wedi cynnig bod y mesurau Amddiffyn Plant yn berthnasol i wasanaethau llai, a dywedom y byddem yn ailedrych ar gwmpas y mesurau

[22] Edrychwch ar baragraffau 12.91 i 12.98 yn ein Datganiad mis Rhagfyr 2024 i gael y manylion llawn.
[23] Edrychwch ar baragraffau 12.103 i 12.109 yn ein Datganiad mis Rhagfyr 2024 i gael y manylion llawn.

niwed anghyfreithlon wrth ddod i benderfyniad yn ein Datganiad Amddiffyn Plant. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael a sylwadau rhanddeiliaid ar y mesurau Niwed Anghyfreithlon ac Amddiffyn Plant, rydym wedi penderfynu y dylai'r mesurau Amddiffyn Plant fod yn berthnasol i ddarparwyr rhai gwasanaethau llai sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant mewn perthynas â'r rhannau o'r gwasanaeth sy'n agored i blant, yn enwedig am y rhesymau sy'n cael eu nodi yng Nghyfrol 4, Adran 18 y datganiad hwnnw.[24] . Rydym wedi egluro uchod ym mharagraff 22.15 bod y dystiolaeth sy'n cefnogi'r mesurau Amddiffyn Plant hefyd yn berthnasol i'r mathau o niwed anghyfreithlon y mae'r mesurau cyfatebol yn y Codau Cynnwys Anghyfreithlon yn berthnasol iddynt oherwydd y tebygrwydd o ran sut mae'r niwed yn dod i'r amlwg ar-lein ac yn cael ei brofi gan blant.

1.29 Rydym bellach wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael a'r ymatebion i Ymgynghoriad mis Tachwedd 2023, ac Ymgynghoriad mis Mai 2024 yn eu cyfanrwydd. Yng ngoleuni hyn, ein penderfyniad yn y Datganiad Amddiffyn Plant, ac y dylai plant gael safon uwch o ddiogelwch ar-lein,[25] rydym wedi dod i'r farn dros dro, yn ogystal â'r gwasanaethau hynny sydd eisoes o fewn cwmpas y mesurau hyn yn y Codau Cynnwys Anghyfreithlon, y byddai'n gymesur argymell bod y mesurau'n berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant sydd naill ai â risg uchel o'r niwed anghyfreithlon perthnasol (gweler uchod), neu risg ganolig o'r niwed perthnasol (gweler uchod) a sydd â dros 700,000 o ddefnyddwyr misol yn y DU. Yn benodol:

a) Ar gyfer gwasanaethau risg uchel sydd ddim o fewn cwmpas y mesurau Amddiffyn Plant cyfatebol, rydym yn disgwyl y gallai absenoldeb yr offer hyn arwain at niwed sylweddol sydd ddim yn cael sylw ac a allai fod yn ddifrifol ac felly rydym o'r farn bod yr offer yn gymesur ni waeth beth fo'u maint.
b) Ar gyfer gwasanaethau risg ganolig, rydym wedi dod i'r casgliad dros dro y byddai'n gymesur gwneud hyn yn berthnasol i ddarparwyr sydd â dros 700,000 o ddefnyddwyr misol yn y DU. Mae disgwyl i'r trothwy maint hwn gynnwys amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n boblogaidd ymysg plant yn y DU o dan ein diffiniad o wasanaeth 'mawr' (dros saith miliwn o ddefnyddwyr misol yn y DU). Rydym o'r farn y byddai'r mesurau hyn yn darparu manteision sylweddol i ddefnyddwyr y gwasanaethau hyn, ac y byddai'r darparwyr hyn yn gallu rheoli effeithiau'r mesurau ar eu gwasanaethau.
c) Rydym yn disgwyl y byddai gwasanaethau llai gyda llai na 700,000 o ddefnyddwyr misol yn y DU a risg ganolig o niwed yn ei chael yn anodd gweithredu'r mesur mewn ffordd sy'n cynyddu'r amddiffyniad rhag cynnwys anghyfreithlon heb effeithiau andwyol sylweddol i ddefnyddwyr. Yn benodol, bydd gan wasanaethau llai o faint adnoddau mwy cyfyngedig, ac efallai y bydd gweithredu'r mesurau hyn yn heriol ac, mewn rhai achosion, bydd angen ailwampio systemau a phensaernïaeth y gwasanaeth yn sylweddol. O ganlyniad, nid ydym yn cynnig y byddai'r mesurau hyn yn berthnasol i wasanaethau sydd â llai na 700,000 o ddefnyddwyr misol yn y DU sydd â risg ganolig yn unig. Ein hasesiad yw y byddai'r gwasanaethau lleiaf sydd ddim â risg uchel yn cyflawni eu Dyletswyddau Cynnwys Anghyfreithlon yn fwy effeithiol drwy ganolbwyntio ar y nifer o fesurau eraill sy'n cael eu hargymell yn ein codau.

1.30 Er mwyn osgoi amheuaeth, o ran maint y gwasanaeth a lefel y risg, rydym wedi argymell bod yr un cwmpas o ddarparwyr gwasanaeth yn gosod y mesurau ar gyfer rhwystro neu dewi cyfrifon defnyddwyr (PCU J1) ac analluogi sylwadau (PCU J2) yn y Codau Amddiffyn

[24] Edrychwch ar baragraffau 18.116 i 18.122 a 18.172 i 18.176 o Gyfrol 4, Adran 18 yn y Datganiad Amddiffyn Plant am fanylion llawn.
[25] Adran 3(4A)(b) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a pharagraff 4(a)(vi) o Atodlen 4 i'r Ddeddf.

Plant (ar gyfer mathau perthnasol o gynnwys sy'n niweidiol i blant). Gan mai bwriad ehangu'r mesurau hyn yw diogelu plant yn well rhag y niwed anghyfreithlon a nodwyd, rydym o'r farn ei bod yn gymesur argymell bod yn rhaid i ddarparwyr llai weithredu'r mesurau hyn mewn perthynas â'r rhannau o'r gwasanaeth sy'n agored i blant yn unig (er y gallant ddewis ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaeth cyfan pe bai hynny'n haws).

1.31 Rydym yn cydnabod na fydd y mesurau hyn yn berthnasol i wasanaethau llai sydd ddim yn debygol o gael eu defnyddio gan blant ac efallai na fydd yr offer i ddefnyddwyr yn cael eu cynnig i bob oedolyn sy'n defnyddio gwasanaethau llai sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant os yw darparwr yn defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i dargedu'r mesurau at blant. Rydym yn cydnabod y gallai'r mesurau hyn arwain at fanteision i ddefnyddwyr sy'n oedolion yn yr achosion hyn, ond nid ydym yn cynnig ymestyn y mesurau iddyn nhw ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i gasglu tystiolaeth o effeithiolrwydd a chostau'r mesurau hyn ar gyfer diogelu defnyddwyr rhag niwed anghyfreithlon ac efallai y byddwn yn ystyried eu hymestyn ymhellach mewn fersiynau o'r Codau yn y dyfodol.

## Casgliad dros dro

1.32 Gan ystyried y ffactorau sy'n cael eu trafod yn yr adran hon, rydym o'r farn y byddai ehangu cwmpas y darparwyr gwasanaeth sy'n gorfod darparu swyddogaethau rhwystro neu dewi cyfrifon defnyddwyr ac analluogi sylwadau i blant yn sicrhau amddiffyniad pwysig yn erbyn y mathau o niwed anghyfreithlon sy'n cael eu nodi.

1.33 Rydym yn cydnabod y gallai ein cynnig arwain at gostau sylweddol i ddarparwyr gwasanaeth. Rydym wedi manylu ar y costau hyn yn yr is-adran 'Costau'. Fodd bynnag, o ystyried difrifoldeb ac amlygrwydd y niwed anghyfreithlon perthnasol, fel meithrin perthynas amhriodol, annog neu gynorthwyo hunanladdiad (neu ymgais i gyflawni hunanladdiad), casineb, aflonyddu, stelcian, bygythiadau a cham-drin, ac ymddygiad sy'n gorfodi a rheoli, a'r rôl bwysig y gall rhwystro neu dewi cyfrifon defnyddwyr ac analluogi sylwadau ei chwarae wrth fynd i'r afael â'r niwed hwn, rydyn ni'n credu ar hyn o bryd bod ein cynnig yn gymesur.

1.34 Byddai'r mesurau'n cael eu cynnwys yn ein Codau Ymarfer ar gyfer Cam-drin Plant yn Rhywiol a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac ar gyfer dyletswyddau eraill. Mae testun cyfun drafft ein Cod wedi'i nodi yng Nghyfrol 6, Atodiad 8.